# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Clwb y Ddwylan**

**Ysgol y Ddwylan**
**Heol Newydd**
**Castellnewydd Emlyn**
**SA38 9BA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Mawrth, 30 Hydref 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Gwasanaeth clwb y tu allan i'r ysgol yw Clwb y Ddwylan sydd wedi'i leoli yn Ysgol y Ddwylan, Castellnewydd Emlyn. Mae'r clwb wedi'i gofrestru ers 2012. Gall ddarparu gofal ar gyfer uchafswm o 40 o blant rhwng pedair a 12 oed. Mae'r clwb yn gweithredu rhwng 15:30 a 18:00 yn ystod y tymor o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ogystal â rhwng 8:00 a 18:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae gan y clwb fynediad i brif neuadd yr ysgol yn ogystal ag ardal awyr agored yr ysgol.

Mererid Morgan yw'r unigolyn cyfrifol ar ran Clwb y Ddwylan a'r person â chyfrifoldeb yw Sharon Thomas.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth mewn perthynas â'r meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol. Roedd y rhain yn ymwneud ag arwain a rheoli'r gwasanaeth.

Mae diffyg arweinyddiaeth yn y gwasanaeth wedi cael effaith ar y ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg.
Mae'r arweinwyr wedi gwneud rhai mân welliannau i'r gwasanaeth. Fodd bynnag, gwelsom na weithredwyd ar y meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol.

### 2. Gwelliannau

Roedd y darparwr wedi gwneud rhai gwelliannau i'r gwasanaeth ers yr arolygiad diwethaf. Roedd yr arweinwyr wedi ymgymryd ag adolygiad o ansawdd y gofal. Yn ystod ein hymweliad, roedd mynediad i'r safle yn ddiogel gan fod aelodau o'r staff wrth y drws a gofynnwyd i ni gofrestru yn nerbynfa'r ysgol. Mae polisi plentyn coll/plentyn nad yw wedi cael ei gasglu bellach ar waith.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Yn ystod yr arolygiad diwethaf, gwelsom nad oedd y darparwr yn darparu digon o ofal yn y gwasanaeth ac o ganlyniad, gwnaethom gyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod y gwasanaeth yn parhau i fethu â chydymffurfio. Mae manylion y diffyg cydymffurfio hwn wedi'u nodi yng nghefn yr adroddiad.
Gan fod y materion hyn wedi'u nodi'n flaenorol ac o natur systemig, mae'r hysbysiad yn dal i fod ar agor er mwyn sicrhau y cymerir camau i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Gwnaethom hefyd wneud argymhelliad i'r darparwr mewn perthynas â'r amgylchedd. Mae'r manylion hyn yng nghefn yr adroddiad.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Gan fod hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, ni wnaethom ystyried y thema hon yn llawn. Fodd bynnag, gwelsom fod y plant wedi ymgartrefu ac yn mwynhau treulio amser yn y clwb. Maent yn fodlon eu byd ac yn edrych yn gartrefol ac yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd a'r staff ar y cyfan. Maent yn cael profiad o ddewis o weithgareddau chwarae yn ystod y sesiwn. Caiff y thema hon ei hystyried yn llawn mewn arolygiadau yn y dyfodol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol ar arwain a rheoli. Ni wnaethom ganolbwyntio ar feysydd gofal a datblygiad ar yr achlysur hwn gan i ni gynnal arolygiad llawn ym mis Rhagfyr 2017. Caiff y thema hon ei hystyried yn llawn mewn arolygiadau yn y dyfodol.

# 3. Yr Amgylchedd

## Crynodeb

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol ar arwain a rheoli. Ni wnaethom ganolbwyntio ar feysydd gofal a datblygiad ar yr achlysur hwn gan i ni gynnal arolygiad llawn ym mis Rhagfyr 2017. Caiff y thema hon ei hystyried yn llawn mewn arolygiadau yn y dyfodol.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Gwelsom fod ansawdd yr arwain a'r rheoli yn wael ac nad yw'r gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda, gyda sylw a gofal dyledus i'r holl reoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae angen gwneud gwelliannau sylweddol.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae arweinwyr yn dal i redeg gwasanaeth nad yw'n cydymffurfio â'r holl reoliadau ac nad yw'n
cyrraedd y safonau gofynnol cenedlaethol.

Ni chafodd pob mater y tynnwyd sylw ato mewn arolygiadau blaenorol eu hunioni erbyn yr ymweliad arolygu hwn. Er bod y risg i'r plant a'r effaith arnynt yn gymharol fach, mae'r rhain yn faterion systemig. Gwelsom fod diffyg cydymffurfio o hyd mewn perthynas â pheryglon a diogelwch, gwiriadau addasrwydd y staff a chyflogi'r staff ac felly gwnaethom fynd ar drywydd hyn drwy ein proses sicrhau gwelliant a gorfodi.

Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym y gellir cysylltu â'r unigolyn cyfrifol dros y ffôn os oedd angen help a'i bod yn gefnogol. Nid oedd y datganiad o ddiben wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu’r newidiadau'n llawn ac felly nid oedd yn gywir. Nododd fod y clwb ar agor rhwng 3:30pm a 5:30pm o ddydd Llun i ddydd Iau. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod y clwb ar agor tan 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae hefyd yn nodi y bydd y plant yn cael eu hannog i gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a gwerthuso gweithgareddau a syniadau. Yn ystod y ddau ymweliad, roedd y staff wedi dod â'r adnoddau i mewn heb ymgynghori â'r plant ymlaen llaw. Ni wnaeth y datganiad o ddiben fodloni'r holl ofynion rheoliadol na chyrraedd y safonau gofynnol cenedlaethol gan nad oedd yn cynnwys cyfeiriad y gwasanaeth, y gweithgareddau a gynigir, cyfeiriad ar y polisi derbyn a'r trefniadau ar gyfer delio ag unrhyw argyfwng. Roedd polisi plentyn coll/plentyn nad yw wedi cael ei gasglu ar waith yn ystod yr ymweliad hwn.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod yr ymarfer tân diweddaraf wedi cael ei gynnal ym mis Tachwedd 2017. Gwnaethom hysbysu'r darparwr yn ystod yr arolygiad diwethaf fod angen i'r cofnodion hyn ddangos nifer y plant a'r staff sy'n bresennol yn ogystal ag amser yr ymarfer. Nid oedd unrhyw broblem ynglŷn â pha mor aml y cynhelir ymarferion tân yn ystod yr arolygiad blaenorol. Fodd bynnag, gwelsom na chynhaliwyd unrhyw ymarferion tân ers yr arolygiad blaenorol. Roedd y Polisi Gweithdrefn mewn Argyfwng yn nodi bod ymarferion tân yn cael eu cynnal o leiaf bob hanner tymor.

Ni chafodd asesiadau risg eu datblygu yn dilyn cyflwyno hysbysiad yn ystod yr arolygiad blaenorol. Gwelsom nad oedd unrhyw asesiadau risg ar waith ar gyfer yr ardaloedd a

ddefnyddir gan y plant, a oedd yn cynnwys ardal awyr agored fawr, ac nid oedd unrhyw asesiadau risg ar waith ar gyfer gweithgareddau. Ni wnaeth y plant ddefnyddio'r ardal awyr agored yn ystod yr ymweliad arolygu hwn. Ni welsom unrhyw risgiau amlwg yn ystod yr ymweliad. Gwnaethom ofyn i'r person â chyfrifoldeb os oedd unrhyw asesiadau risg ar gael a dywedodd nad oedd yn deall pam bod angen iddynt fod ar waith gan eu bod yn gweithredu o adeilad ysgol. Yn ystod yr ymweliad hwn, gwelsom un asesiad risg yn cael ei gwblhau gan y person â chyfrifoldeb ar gyfer ymweliad dydd yn ystod y clwb gwyliau, dyddiedig 8 Awst 2018. Yn ystod yr arolygiad blaenorol, gwnaethom drafod asesiadau risg gyda'r unigolyn cyfrifol yn y sesiwn adborth ar yr arolygiad a dywedwyd wrthym y byddai'n llunio'r rhain ac yn eu hanfon ymlaen i Arolygiaeth Gofal Cymru. Ni chafodd y mater hwn ei unioni erbyn yr ail ymweliad arolygu.

Yn ystod ein hymweliad arolygu cychwynnol, gwnaethom godi ein pryderon mewn perthynas â mynediad heb awdurdod gan ein bod wedi gallu mynd i mewn i adeilad yr ysgol drwy ddrws agored a chael mynediad i'r clwb ar ôl ysgol heb i neb ofyn pwy oeddem na beth oedd diben ein hymweliad. Roedd hwn wedi cael ei unioni a rhoddwyd mesurau ar waith yn ystod yr ymweliad arolygu hwn. Pan wnaethom gyrraedd, roedd dau aelod o'r staff yn sefyll wrth ddrysau'r ysgol a gofynnwyd i ni gofrestru yn nerbynfa'r ysgol cyn i ni gael ein tywys i'r clwb ar ôl ysgol.

Mae diffygion o ran arweinyddiaeth yn y gwasanaeth hwn o hyd.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Ymgymerwyd ag adolygiad o ansawdd y gofal yn dilyn cyflwyno hysbysiad yn ystod yr arolygiad blaenorol. Fodd bynnag, ni chafodd pob barn ei hystyried yn ffurfiol.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae arweinwyr wedi cynnal adolygiad o'r gwasanaeth ac wedi llunio adroddiad ar yr adolygiad. Nododd yr adroddiad hwn y ceisiwyd barn y plant, y staff a'r rhieni, gyda'r plant yn cwblhau holiaduron adborth, a'r rhieni a'r staff yn rhannu eu barn ar lafar. Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym fod y plant wedi tynnu lluniau a bod y rhain yn cael eu harddangos. Fodd bynnag, roedd yr arddangosfa wedi cael ei thynnu i lawr ers hynny. Pan ofynnwyd sut maent yn mynd ati i gasglu barn y plant, dywedwyd wrthym "we just ask them, and they do it." Ni welsom unrhyw un o'r holiaduron plant a dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym nad oedd y plant wedi cwblhau holiaduron.
Gwnaeth yr adolygiad nodi meysydd i'w gwella a gwelsom rai o'r rhain yn cael eu rhoi ar waith yn ystod yr ail ymweliad arolygu, a oedd yn cynnwys y plant yn cael cynnig byrbryd iachach a'r plant yn helpu'r staff yn ystod amser byrbryd drwy ddosbarthu platiau a chwpanau. Ni chymerwyd unrhyw gamau mewn perthynas â'r gwelliannau eraill a nodwyd yn yr adolygiad, gan gynnwys diweddaru ffeiliau aelodau o'r staff a chwblhau asesiadau risg. Mae'r unigolyn cyfrifol yn nodi'n glir yn yr adolygiad ei bod am i rywun arall gymryd y swydd drosodd.

Nid oes gan yr arweinwyr system effeithiol ar gyfer casglu barn pobl a rhoi cynllun gwella ar waith.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Nid yw'r staff na'r adnoddau yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Yn ystod yr arolygiad blaenorol, gwnaethom roi gwybod i'r darparwr nad oedd yn cydymffurfio am nad oedd wedi rhoi gwybod i AGC am y newidiadau i'r staff. Nid oedd AGC wedi cael unrhyw wybodaeth mewn perthynas â'r newidiadau hyn i'r staff cyn yr ymweliad arolygu hwn. Mae'r gwasanaeth felly yn parhau i fethu â chydymffurfio. Cafodd ffeiliau'r staff eu rhoi ar waith yn ystod yr arolygiad blaenorol. Fodd bynnag, nid oedd yr holl ddogfennaeth addasrwydd ar waith ar gyfer pob aelod o'r staff. Nid oedd hyn wedi newid yn ystod yr ymweliad arolygu. Roedd dyddiad cyflogi a phrawf adnabod ar goll o ffeil pob aelod o'r staff a welsom yn ystod yr ymweliad arolygu hwn. Roedd dyddiad cyflwyno tystysgrif DBS ar goll o ffeiliau dau aelod o'r staff, roedd disgrifiad swydd ar goll o ffeiliau tri aelod o'r staff ac roedd geirda, hanes gwaith a datganiad meddygol o iechyd ar goll o ffeil un aelod o'r staff. Ni wnaed unrhyw welliannau mewn perthynas â dogfennaeth addasrwydd yn ffeiliau'r staff. Yn ystod yr arolygiad blaenorol, gwelsom na chynhaliwyd unrhyw arfarniadau na sesiynau goruchwylio mewn perthynas â rolau aelodau o'r staff yn y gwasanaeth. Fodd bynnag, roedd yr unigolyn cyfrifol wedi nodi yn yr adolygiad o ansawdd y gofal y byddai sesiynau goruchwylio staff yn cael eu cynnal yn ystod haf 2018. Gwnaethom siarad â'r unigolyn cyfrifol yn ystod yr arolygiad a rhoddodd wybod i ni y cynhaliwyd sesiynau goruchwylio un i un gyda'r staff yn ystod mis Awst 2018 a bod yr holl gofnodion goruchwylio wedi'u storio ar ei gliniadur personol. Gwnaethom ofyn i aelodau o'r staff yn ystod yr ymweliad a oeddent wedi cael cyfle i gael sesiwn oruchwylio un i un gyda'r unigolyn cyfrifol neu'r person â chyfrifoldeb a gwnaethant ddweud wrthym eu bod wedi gweld yr unigolyn cyfrifol yn ystod yr haf. Fodd bynnag, ni chynhaliwyd sesiynau un i un.

Nid yw'r gwaith o reoli staff yn effeithiol.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Gan fod hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, ni wnaethom arolygu'r maes allweddol hwn. Fodd bynnag, caiff y thema hon ei hystyried yn llawn mewn arolygiadau yn y dyfodol.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

- Yr hyn sy'n ofynnol yn gyffredinol gan yr unigolyn cyfrifol

Nid oedd yr unigolyn cyfrifol yn darparu digon o ofal yn y gwasanaeth am ei bod wedi methu â sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau sy'n ymwneud â'r datganiad o ddiben; asesiadau risg; addasrwydd staff, gan nad oedd yr holl wiriadau addasrwydd ar waith; trefnu a chynnal sesiynau goruchwylio staff ynghyd ag arfarniadau blynyddol. Gwelsom fod y darparwr yn parhau i fethu â chydymffurfio ac na chymerwyd unrhyw gamau i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaed yr argymhelliad canlynol yn ystod yr arolygiad blaenorol ac mae angen ei ystyried o hyd:

- mae'r staff yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd ac yn cofnodi'r amser gwirioneddol, ynghyd â'r nifer o blant a staff sy'n bresennol yn ystod ymarfer tân.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol wedi'i drefnu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth y materion a nodwyd mewn arolygiad blaenorol.
Cynhaliwyd yr arolygiad gan un arolygydd dros ddwy awr ar 6 Medi 2018. Yn ystod yr ymweliad, gwnaethom gyflawni'r canlynol:

- arsylwi ar y gofal a ddarperir
- siarad â'r person â chyfrifoldeb ac aelodau o'r staff a oedd yn gweithio i'r gwasanaeth;
- siarad â'r unigolyn cyfrifol dros y ffôn
- edrych ar gofnodion/dogfennau gan gynnwys: ffeiliau aelodau o'r staff, asesiadau risg, polisïau a gweithdrefnau a datganiad o ddiben y gwasanaeth.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal y Tu Allan i'r Ysgol** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Mererid Morgan** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Sharon Thomas** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **40** |
| **Ystod oedran y plant** | **4-12 oed** |
| **Oriau agor** | **15:30-18:30 o ddydd Llun i ddydd Gwener** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **11 a 20 Rhagfyr 2017** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **06 Medi 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

# Arolygiaeth Gofal Cymru

## Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

## Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010

# Hysbysiad Diffyg Cydymffurfio

### Gofal Dydd Plant

Mae'r hysbysiad hwn yn nodi'r meysydd lle nad yw eich gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Mae'n ofynnol i chi, y person cofrestredig, gymryd camau gweithredu er mwyn sicrhau eich bod yn cydymffurfio o fewn yr amserlenni a bennir.

**Mae cyflwyno'r hysbysiad hwn yn fater difrifol. Os na lwyddir i gydymffurfio, bydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn gweithredu yn unol â'i pholisi gorfodi.**

Mae mwy o gyngor a gwybodaeth ar gael ar wefan AGC
www.arolygiaethgofal.cymru

**Clwb y Ddwylan**

Ysgol y Ddwylan
Heol Newydd
Castellnewydd Emlyn
SA38 9BA

**Dyddiad cyhoeddi: Dydd Mawrth, 30 Hydref 2018**

| Arwain a Rheoli | | Ein Cyf: NONCO-00006653-GBJJ |
|---|---|---|
| **Y diffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad hwn** | | |
| **Amserlen gwblhau** | **12/10/18** | |
| | | |
| **Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau gweithredu** | **Rhif y rheoliad** | |
| Yr hyn sy'n ofynnol yn gyffredinol gan yr unigolyn cyfrifol. Nid oedd yr unigolyn cyfrifol yn darparu digon o ofal yn y gwasanaeth am nad oedd wedi sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Camau i'w cymryd: Sicrhau y caiff y clwb ei redeg yn unol â'r rheoliadau drwy ddiweddaru'r datganiad o ddiben; llunio asesiadau risg; trefnu a chynnal sesiynau goruchwylio staff ynghyd ag arfarniadau blynyddol a ffeiliau aelodau o'r staff i gynnwys y dogfennau sy'n ofynnol yn ôl y rheoliad. Anfon tystiolaeth o'r uchod ynghyd â dogfennau sydd wedi'u diweddaru i Arolygiaeth Gofal Cymru. | 9 (1) (a) | |
| **Tystiolaeth** | | |

- Nid yw'r unigolyn cyfrifol yn cydymffurfio â Rheoliad 9.
- Mae hyn am nad oedd yr unigolyn cyfrifol yn darparu digon o ofal yn y gwasanaeth am ei bod wedi methu â sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau.
- Y dystiolaeth: Gwnaethom archwilio Clwb y Ddwylan ym mis Rhagfyr 2017 a chyflwyno dau hysbysiad diffyg cydymffurfio ynghyd â hysbysiadau. Roedd gan y ddau hysbysiad ddyddiad targed, sef 28 Chwefror 2018. Cafodd yr hysbysiad yn ymwneud â'r adolygiad o ansawdd y gofal ei gau ym mis Mehefin 2018. Fodd bynnag, pan wnaethom ymweld â'r gwasanaeth ar 6 Medi 2018, gwelsom nad oedd unrhyw dystiolaeth i ategu'r wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiad ar adolygu ansawdd y gofal. Nododd yr adroddiad fod y plant wedi cwblhau holiaduron adborth yn ogystal â lluniau yn rhannu eu barn am y gwasanaeth. Pan wnaethom drafod hyn gyda'r person â chyfrifoldeb yn ystod yr ymweliad arolygu ar 6 Medi 2018, nododd nad oedd y plant wedi cwblhau unrhyw holiaduron adborth ac nad oedd y lluniau y gwnaethant eu tynnu ar gael bellach gan fod yr arddangosfa wedi cael ei thynnu i lawr ac y cafwyd gwared ar y lluniau. Yn ystod y ddau ymweliad arolygu, gwelsom nad oedd yr unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod y datganiad o ddiben yn cydymffurfio â'r rheoliad nac yn adlewyrchu'r gwasanaeth a gynigir. Roedd yr unigolyn cyfrifol wedi anfon datganiad o ddiben wedi'i ddiweddaru ym mis Mehefin 2018. Fodd bynnag, gwnaethom ei hysbysu bod angen ei ddiwygio ymhellach er mwyn iddo gydymffurfio â'r rheoliad. Nid oedd y datganiad o ddiben a welsom yn ystod yr ymweliad arolygu ar 6 Medi 2018 wedi newid ac nid oedd yn cydymffurfio â'r rheoliad. Nid oedd yr unigolyn cyfrifol wedi cwblhau'r asesiadau risg; nid oedd wedi cynnal sesiynau goruchwylio staff rheolaidd nac arfarniadau blynyddol ac nid oedd wedi sicrhau bod ffeiliau aelodau'r staff yn cynnwys y ddogfennaeth ofynnol yn ôl y rheoliadau. Gwnaethom siarad â'r unigolyn cyfrifol dros y ffôn yn ystod yr ymweliad ar 6

Medi 2018 a dywedodd wrthym nad oedd yn awyddus i fod yn unigolyn cyfrifol y gwasanaeth. Fodd bynnag, nid oedd yn gallu dod o hyd i unigolyn a oedd yn fodlon cymryd drosodd. Gwnaeth hefyd nodi ei bod wedi ymweld â'r gwasanaeth dros yr haf ac wedi cynnal sesiynau goruchwylio staff a bod y cofnodion hyn wedi'u storio ar ei gliniadur personol.  Gwnaethom ofyn i'r staff a oedd yn bresennol yn ystod yr ymweliad a oeddent wedi cael cyfle i drafod eu rôl â'r unigolyn cyfrifol ar sail un i un a gwnaethant ddweud wrthym nad oeddent wedi cael sesiynau goruchwylio un i un ac nad oeddent wedi cwblhau unrhyw waith papur. Gwnaethant gadarnhau fod yr unigolyn cyfrifol wedi ymweld â nhw dros yr haf. Fodd bynnag, gwnaeth ond gofyn "everything okay?"

- Yr effaith ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth:  Nid yw'r unigolyn cyfrifol yn monitro i sicrhau bod y clwb yn rhedeg yn unol â'r rheoliadau ac, o ganlyniad, gallai hyn arwain at ganlyniadau gwael i'r plant.

Caiff hwn ei ddwyn i gam nesaf cyfarfod darparwr.